Clecs Camwy

Rhifyn: Tachwedd 2019

Golygyddion: Tomos Evans, Nest Jenkins a Nia Eyre

# Eisteddfod lwyddiannus yn Nhrelew



**Yr Eiseddfod yn blodeuo:**

Dawnswyr Dawns y Blodau yn yr Orsedd. (Tarddiad: Mariel Bonavia)

Bu nifer o gystadleuwyr yn cystadlu yn Eisteddfod del Chubut fis Hydref. Roedd y rhagbrofion yn boblogaidd iawn ac roedd nifer o ymwelwyr o Gymru hefyd wedi dod i weld y cystadlu yn yr Ariannin.

**Angelica Evans sydd â'r hanes ar dudalen 8.**

# Tedy'n ennill ysgoloriaeth

Mae Tedy Lewis wedi cael ei enwi'n enillydd Ysgoloriaeth Tom Gravell 2020. Fel rhan o'r ysgoloriaeth, bydd Tedy'n teithio i Gymru yn y flwyddyn newydd am gyfnod o dri mis.

**Darllenwch fwy am newyddion cyffroes Tedy ar dudalen 3.**

# Clwb Rygbi'r Ddraig Goch yn dathlu

Yn ddiweddar, bu Clwb Rygbi'r Ddraig Goch, y Gaiman, yn dathlu carreg filltir nodweddiadol wrth iddyn nhw gyrraedd eu pen-blwydd yn 15 mlwydd oed. Bu dathliad yn y Gampfa i nodi'r digwyddiad ac i ddathlu llwyddiannau'r clwb.

**Darllenwch fwy am y dathliadau yn adroddiad Meic Downey ar dudalen 8.**

# Arddangosfa gelf ym Meraki

Fis Medi, cynhaliwyd arddangosfa gelf yng nghaffi Meraki, gwyddereb â'r Plaza yn y Gaiman. Bu Gwaith Helen Flook yn cael ei gyflwyno i'r caffi gyda myfyrwyr Coleg Camwy yn rhannu hanes a chyd-destun y gwaith.

**Irupé Meze-White, a fynychodd y digwyddiad ar ein rhan, sydd â'r hanes ar dudalen 2.**

# Y gyfrinach i'r asado perffaith?

Un o'r prydiau mwyaf poblogaidd a chymdeithasol yn yr Ariannin yw asado. Mae asado'n ffordd berffaith o gael pobl draw i'r tŷ i ddathlu pen-blwydd neu ddigwyddiadau pwysig eraill. Gladys Hughes sy'n rhannu ei ryseit gyda Chlecs Camwy i goginio asado asennau llwdn, neu ddafad.

**Darllenwch fwy am ryseit Gladys yn y Gornel Greadigol ar dudalen 7.**

# Arddangosfa gelf ym Meraki

**gan Irupé Meze White**

Ar yr 28ain o Fedi, roedd arddangosfa ym Meraki yn y Gaiman. Roedd lluniau gan Helen Flook yn dangos y Cymry cyntaf i ddod i'r Waldfa. Bydd y lluniau yn cael eu defnyddio yn y cwrs Cymraeg newydd, Cwrs Uwch 3. Roeddwn i wedi agor y sioe gyda help Sinead Harries, ac roedd fy ffrindiau o Goleg Camwy wedi esbonio tipyn bach am beth roedd pob llun yn dangos a gwnaeth Tedy gloi'r arddangosfa ar y diwedd. Hefyd roedd Helen Green yn canu'r delyn i ddechrau a gorffen.
Roedd y lle yn llawn dop, a'r rhan fwyaf yn siarad Cymraeg. Roedd Rhisiart Arwel wedi dod o Gymru, felly gwnaethon ni groesawu fe hefyd. Mwynheais i yn fawr iawn. Ar ôl darllen ac edrych ar y lluniau, cawsom ni luniaeth ysgafn o bop, empanadas a brechdanau - blasus iawn!



**Arddangosfa ym Meraki:**

Daeth llawer o bobl i weld yr arddangosfa o waith Helen Flook.

# Cymdeithas Dewi Sant Comodoro Rivadavia

**gan Luned Gonzalez**

Mae gan Gymdeithas Dewi Sant Comodoro Rivadavia ganolfan yn Barrio Divina Providencia, Km3. Daeth cefnogwyr ynghyd ddydd Sadwrn y 28ain o Fedi i ddathlu y Gwanwyn mewn ffordd ymarferol ynghyd a Academi Saesneg Wonderland.

Mae prifathrawes Wonderland, Belén Arenas, yn aelod o´r Gymdeithas. Daeth teuluoedd ynghyd i blannu poplys ac ar ddiwedd y dydd roedd 126 ohynynt wedi eu plannu a phawb wedi cael mwynhad mawr. Y newydd da ydy bod system i´w ddyfrhau yn awtomatig mewn grym hefyd. Y gobaith bydd y poplars yn gysgod braf yn y dyfodol. Da iawn chi, Comodoro!

# Diolch, Jennifer!

**gan Sibyl Huws ac Astrid Rhys (ar ran Dawnswyr Gwanwyn)**

Dros fis Hydref diwethaf, buodd Ms Jennifer Maloney yma. Daeth hi o Gymru bell i feirniadu Dawns Werin Gymreig yn Eisteddfod y Wladfa ac roedd hi wedi aros am wythnos arall, gan drefnu sesiynau hyfforddi i grwpiau Dawns Gwerin Patagonia. Buodd hi yn yr Andes, Comodoro Rivadavia, Porth Madryn, Y Gaiman a Threlew. Helpodd hi loywi lefel dawns gwerin y grwpiau a threfnodd hefyd rai Twmpathau Dawns agored i´r cymunedau. Dyn ni´n hapus iawn gyda phopeth roedd hi wedi ein dysgu a dyn ni´n gobeithio ei chroesawu hi eto yn y Wladfa cyn bo hir. Roedd yn bleser iawn dy gwrdd Jennifer, diolch yn fawr!

# Cynhadledd Gymraeg ym Madryn yn llwyddiant

**gan Geraint Ashton**

Fis Medi, ces i'r pleser o weithio gyda Lorena Peralta i gyflwyno'r Gymraeg i grŵp o bobl newydd. Bu cynhadledd i bobl sy'n gweithio o fewn y diwydiant twristaidd yn y brifysgol ym Mhorth Madryn a chynhalion ni sesiwn ar gyflwyno'r Gymraeg gan gynnwys hanes cyflym ac ychydig o'r iaith.  Roedd nifer o weithdai wedi cael eu cynnal yn y gynhadledd, gyda phobl a oedd wedi dod o Fuenos Aires a Cordoba! Erbyn diwedd y sesiwn roedd y myfyrwyr yn gallu cyfarch ei gilydd yn Gymraeg, gofyn "Sut wyt ti?" ac ateb a hyd yn oed dweud "Diolch" am y sesiwn ar y diwedd cyn ffarwelio yn Gymraeg. Cafwyd tipyn o hwyl yn y sesiwn ac ar y diwedd gofynnodd ambell un a oedd gwersi ar gael ym Muenos Aires hefyd! Pleser o'r mwyaf felly oedd cyflwyno'r iaith i'r 30 myfyriwr a fu yn y wers.



**Y Gymraeg a thwristiaeth:**

Gwnaeth 30 o fyfyrwyr fynychu'r wers ym Mhorth Madryn.

# Tedy yn ennill Ysgoloriaeth Tom Gravell

**gan Tedy Lewis**

S'mai! Tedy Lewis ydw i, a dw i'n dod o Drelew. Dw i wedi bod mewn cysylltiad gyda'r iaith Gymraeg ers pan o'n i'n blentyn, ond dw i'n mynd i ddosbarth Cymraeg i oedolion yn Ysgol yr Hendre ers pedair blynedd. Dw i'n mwynhau dysgu Cymraeg a dw i'n siwr bod y Gymraeg ydy rhan mwyaf pwysig fy mywyd.
Yn ddiweddar, ces i wybod fy mod wedi ennill ysgoloriaeth Tom Gravell 2020. Dw I mor hapus. Dw i ddim wedi bod yn Nghymru (na theithio dramor!), felly chi'n gallu gweld pa mor gyffrous mae hwn i fi. Yr unig beth yn fy meddwl ar hyn o bryd ydy'r daith i Gymru, a dweud y gwir.
Bydda i yng Nghymru am dri mis: o fis Ionawr i fis Mawrth. Af i I Goleg Llanymddyfri, lle bydda i'n aros hefyd. Bydda i'n gwella fy Nghymraeg a gwneud gweithgareddau gwahanol o ddiddordeb. Bydda i hefyd yn cael y cyfle i gwrdd â phobl sydd wedi dod i Batagonia a falle cael trip i ddinasoedd yng Nghymru.
Y pethau hoffwn i neud' mwya ydy: gwneud ffrindiau newydd a chwrdd â llawer o bobl, teithio dros Gymru, gwella fy Nghymraeg a dysgu llawer o'r hanes Cymreig. Hefyd, trio goroesi'r oerfel Cymreig, ond siwr o fod, bydd e ddim mor wahanol o oerfel Patagonia (ond fydd o?). Beth bynnag, y gôt law fydd fy hoff ffrind am dri mis.
Dw i'n mwy na pharod i gael profiad anhygoel, a dw i'n falch iawn i weld fod fy holl waith dros y blynyddoedd yn ddangos. Diolch i bob un sydd wedi helpu fi yn y ffordd yma.
Wela i chi'n fuan, Gymru!
-Tedy x

Clecs Camwy

# Llythyron wrth y Santanders...

## Tomos Evans

Annwyl bawb,

Diolch am un o'r cyfleoedd gorau dw i erioed wedi profi!

Cawsom groeso cynnes o'r funud y cyrhaeddom ac roedd hi'n bleser cael gwneud cyfraniad bach i'r gymuned o siaradwyr Cymraeg yn y Gaiman a Threlew. Pleser hefyd oedd gweld angerdd y plant tuag at yr iaith wrth iddynt ymarfer ar gyfer Eisteddfod de la Juventud. Roeddent i gyd yn serennu ar lwyfan.

Roedd y cyfle i gynorthwyo yn Nhe Mawreddog Ysgol Gymraeg y Gaiman ar ein prynhawn cyntaf yn y Gaiman yn gyfle gwych i ddod i adnabod y gymuned yn syth. Mae rhai o uchafbwyntiau eraill y daith yn cynnwys cael cyfweliad gyda Luned Gonzalez ar ei rhaglen ar Radio del Chubut a mynd i kayako gyda rhai o'r athrawon o Gymru ar Ddiwrnod yr Athrawon. Roeddwn hefyd wrth fy modd yn mynychu'r ymarferion côr dan arweiniad Gladys Thomas a chael dod i adnabod pobl ifanc y Gaiman o ganlyniad.

O'r chocolate caliente ym Meraki i'r fricasse yng Ngwalia Lan. O'r choripan gyda Billy a Gladys i'r asado gyda Lalo a Rosa. Roedd y croeso yn gynnes ym mhobman a'r gyngerdd a'r wledd yn yr Ysgol Gerdd yn ddiweddglo teilwng iawn i'n hamser yn y Gaiman.

O waelod calon, mawr yw fy niolch i bawb yn y Gaiman a Threlew am y croeso cynnes y cawsom yn ystod ein mis yn yr ardal. Aeth yr amser mor gyflym ac mae croeso mawr i chi yn Sir Benfro, neu Gaerdydd, os ddewch chi byth i Gymru.

## Nia Mererid Eyre

Annwyl ddarllenwyr Clecs Camwy,

Mae'n anodd credu bod dros fis wedi mynd heibio bellach ers i ni ffarwelio â chi yn y Gaiman. Rydw i nôl yn y Brifysgol yng Nghaerdydd ac yn barod am y drydedd flwyddyn. Es i i wylio fy ngêm bêl droed gyntaf yn Stadiwm Dinas Caerdydd a rhedeg fy ail hanner marathon hefyd! Roedd hi mor hyfryd clywed cymaint o leisiau cyfarwydd ar Radio Cymru yn ddiweddar ac roedd hynny'n gwneud i mi hiraethu am y cyfnod gwerthfawr y gwnes i dreulio yn y Gaiman. Fe wnes i fwynhau gwrando ar blant yr ysgolion Cynradd yn ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod, ac roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o blant mor barod i gystadlu! Er bod cynorthwyo i ddysgu'r plant a chyda'r gwersi Cymraeg i Oedolion wedi bod yn brofiadau bythgofiadwy, bywyd hynod gymdeithasol ac agos y gymuned sy'n aros yn fyw yn y cof. Roedd cael bod yn rhan o'r côr yn enwedig yn gwneud i mi deimlo'n gartrefol iawn yn syth - diolch. Wna i fyth anghofio Tŷ Camwy, Plas y Graig, Gwalia Lân, Meraki, na'r siop fara, ond chi, y bobl sy'n cadw cymuned Gymraeg Camwy yn fyw a gafodd yr argraff fwyaf arna i, a diolch ichi am hynny.



## Nest Jenkins

Annwyl drigolion Dyffryn Camwy,

Helo! Anodd credu bod dros fis ers imi fod gyda chi yn y Gaiman. Ers dychwelyd i Gymru, dwi'n siarad a hiraethu am Batagonia bob dydd – a phawb yma'n deall faint y gwnes i fwynhau yn eich cwmni! Diolch byth am y cyfryngau cymdeithasol a Radio Cymru i glywed eich hanes ac i gadw mewn cysylltiad.

Roedd y mis hwnnw'n fis arferol i chi. Mis o gymdeithasu, mynychu digwyddiadau a chroesawu Cymry brwd. Ond i mi, dyma fis bythgofiadwy. O'r eiliad y cyraeddasom yn y Gaiman, roedd hi fel petawn i adre; pawb yn gwybod ein bod ni yno, sawl un eisiau ein help a digon o wahoddiadau hael am asados! Teimlem yn rhan o'ch cymdeithas glòs, a diolch am hynny.

Roedd pob dydd yn llawn dop o ddysgu, canu a chael hwyl yn Ysgol Gymraeg y Gaiman, Ysgol yr Hendre neu'r Ysgol Gerdd (diolch am adael imi ymarfer y delyn bob dydd!). Roedd pob noson hefyd yn brysur!

Mae'r digwyddiadau mawr yn aros yn y cof; Eisteddfod yr Ifanc, rhwyfo lawr afon Chubut, gweld y morfilod. Ond yr atgofion bach sydd wedi fy newid fel person; treulio oriau yng nghegin Luned Gonzalez yn sgwrsio, clywed yr anthem yn eich acen Archentaidd anhygoel a chlywed Billy Hughes yn canu yn ei quincho gyda'i gitâr. Dyma atgofion sydd yn parhau'n fyw yn y cof.

Cofiwch, os oes unrhyw un yn dod i Gymru, mae llety, gweithgareddau a chroeso twymgalon yn disgwyl amdanoch.

# Diolch wrth y Mets...

## Sara Patterson

Rydw i o bentref bach yng ngorllewin Cymru o'r enw Ffostraol. Uchafbwynt fy nhaith i Batagonia oedd i gynorthwyo ac addysgu Criced Cyflym i blant Ysgol y Gaiman. Roedd gallu hyfforddi 8,000 o filltiroedd o adref yn y Gymraeg yn wych! Rydw i'n gweld eisiau yfed digonedd o win coch a bwyta asado yn fawr iawn.

## Dafydd Trewyn

Rydw i'n dod o Gaernarfon yn wreiddiol. I fi, uchafbwynt y death oedd cael ein croesawu gan bawb o fewn y Gymdeithas Gymraeg. Anhygoel oedd clywed y Gymraeg yn fyw ochr arall y byd. Dw i'n gweld eisiau'r cyfeillgarwch, a'r golygfeydd bendigedig.




## Gwion John Williams

Dw i'n wreiddiol o Bethel. Uchafbwynt y daith oedd yr elfen hollol wallgo ein bod yn Ne America ond yn aros mewn lle o'r enw Plas y Coed yn mynd am ginio i'r Siop Bara, am swper i Gwalia lân ac wedyn am beint i'r Mochyn du. Anhygoel. Dw I'n gweld eisiau'r ffaith fod pob dim mor hawdd ac ymlaciol yno, dim brys. Ond hefyd yn amlwg yn gweld eisiau'r cig anhygoel, gwin coch, yr "uno fernet a coke por favor" o'r mochyn du a'r bobl gwych sydd yno!

## Guto Gwenallt

Yn wreiddiol, dw i'n hanu o Borthmadog. Ucahfbwynt fy nhaith oedd cael y cyfle i ymrwymo mewn diwylliant Cymraeg yn Ne America mor bell o Gymru. Y pethau dw i'n gweld eisiau fwyaf am Batagonia yw'r agwedd 'laid back', Mike Downey a Mochyn Du.

# Y Gornel Greadigol

**Ar noson olaf y Satanders yn y Gaiman, canhaliwyd cyngerdd yn yr ysgol gerdd. Penderfynodd Tomos, Nia a Nest i ganu pennillion i dôn bing bong, fel diolch i bobl yr ardal ar ddiwedd y daith.**

Wel, am fis y cawsom ni
Yn y Dyffryn gore sy',
Mae'r mis drosodd, ydy wir,
Atgofion fydd yn para'n hir.

I Ysgol y Gaiman yr aethom ni;
Dysgu canu a chael sbri.
Diolch i Rebecca a'i chriw,
Diolch am gadw'r iaith yn fyw.

Siwan a Rhydian yn yr Hendre,
Llawn o hwyl a gweithgaredde,
O gerdd dant i ddawnsio gwerin,
Mae'r Gymraeg yn saff 'da rhein.

Mynd am dro i Goleg Camwy,
Yfed mate ond dysgu mwy,
Pawb o'r chweched yn gwenu'n llon,
Ar fin mynd i Blas Anion.

Cari, un mor annwyl yw,
Fel athrawes mae mor driw,
Hi sy'n ffrind, fel chwaer,
Welwn ni ti nôl yng Nghymru.

Pwy yw'r un sydd mor ddigri?
Does neb tebyg i Mike Downey!
Bob tro'n gwenu fel y boi,
Ac yn gweiddi 'Oi, oi, oi!'

Ariela, diolch mawr,
Am bob dim chi'n gwneud bob awr,
Whatsapp audio yw dy beth,
Sy'n rhoi trefn ar bob peth.

Esyllt Nest, am ddynes glen,
Cawsom groeso gyda'i gwên,
Dysgu telyn a barddoni,
Diolch am fod fel Mam i ni.

Geraint sydd yn lot o sbri,
Dylanwad gwael yn y Mochyn Du!
Diolch am dy holl gefnogaeth
Ac am roi yr iaith ar waith.

Wel, Sinead, o'r diwrnod cynta',
Hi a roddodd groeso cynesa',
Bob barod iawn i helpu
Gyda'i gemau, diolch iddi.

Gladys a Billy, dyma gwpwl,
Gyda'i gilydd – dwbwl trwbwl!
Gladys yw'r arweinydd gorau
A billy a'i lais sy'n toddi calonnau.

Luned, y Frenhines fawr,
Sydd yn weithgar bob un awr,
Gwibio yn ei char bach chwim,
Diolch iddi am bob dim.

Gaiman, diolch o waelod calon,
Am y chwerthin a'r atgofion,
Dweud hwyl fawr sy'n emosiynol,
Ond heb os, fe ddown ni nôl!



**Canu da, cwmni da:**

Y Santanders gyda Tedy, Irupé, Alexis a Ramiro yn y gyngerdd.

# Y Gornel Greadigol

## Y Wladfa

### gan Gwion John Williams

Byd anwybodus, agos,
Y cymry a fu'n glos
Wrth draed yr andes
Adlais muchos gracias.
A fu hanes y Cymru'n
Treiddio'r acen trevelin.
Byd anwybodus, agos.

Wedyn cyrraedd y Gaiman
Gwrthgyferbyniad byd o drydan
Hollol wahanol ir andes
A'r Adlais muchos gracias.
Ac y cymry yn eu cwrw a'i gwin
Yn atsian yr alaw werin
Ein hanes ni a'r dân.

## Asado asennau llwdn neu ddafad

### gan Gladys Hughes

Mae gwneud asado (neu rostió cig ar fflamau tân coed) yn ffordd hawdd, syml a buan o goginio darn o gig. Does dim llawer o gyfrinach, jest cadw golwg o rai manylion a chymryd yr amser sydd ei angen.

Gwnawn ni ganolbwyntio ar un o'r darnau cig mwyaf addas i goginio ar y tân, sef yr asenau ar yn ochr yr anifail.

1. Torrwch ddarn asenau cyfan, rhwng y goes ôl a'r gwddf, wedyn tynnu'r goes flaen oddi wrth yr asenau.
2. Nesaf, gwnawn ni basio darn o haearn trwy'r cig o'r top ac i lawr, a gofalu'n bod ni'n gadael darn o haearn (mwy neu lai 30 cm) yn rhydd i gladdu yn y ddaear.
3. Fel croes, yn y top, gwnawn ni glymu haearn llai neu ddarn o bren er mwyn i'r cig beidio rinclo efo'r gwres.
4. Taflwch halen ffein un ochr or cig.
5. Plannwch o o flaen y tân efo'r asennau yn wynebu´r tân i ddechrau, tua 80cm neu 1 metr o'r fflam. Dim gormod o fflam, a gofalwch bod y tymheredd yr un peth yn nhop ac yn ngwaelod yr asado.
6. Bydd tua 45/50 o funudau yn ddigon i gwcio ochr yr asennau, a wedyn tua 20 munud arall ar ôl wynebu yr ochr arall i'r tân i orffen y job.
7. Cadwch olwg, bob hyn a hyn, rhag ofn bydd gormod o fflam a bydd e'n llosgi, neu ddim digon o wres a choginio'n rhy araf.
8. Cofiwch syrfio efo glasiad o win coch. Pob hwyl, a buen provecho!

## Y Gaiman drwy lygaid Dewi

### gan Dewi

Miaw! Dewi ydw i.

Ar yr olwg gyntaf, dim ond cath sinsir, gyffredin ydw i. Ond, ffrindiau, fi yw'r gath fwyaf lwcus yn y Gaiman.

Dwi'n byw yn Nhy Camwy a bob blwyddyn, dwi'n croesawu Cymry brwdfrydig i fyw gyda mi am flwyddyn. Eleni, Cari Davies yw fy mam a Geraint Ashton yw fy nhad! Mae Cari yn athrawes yn Ysgol y Gaiman a bob tro'n llenwi fy mol ac yn gofalu amdana i. Mae Geraint, ar y llaw arall, wedi cymryd mwy o amser i gynhesu ata i! Rho mwy o faldod i fi Geraint!

Dwi wrth fy modd yn clywed y Gymraeg yn atseinio rhwng waliau Ty Camwy! Bob nos Fawrth, daw'r Clwb Sgwrsio am fate ac ychydig o fwyd. Dwi wrth fy modd yn clywed straeon hanesyddol Fabio, cael sylw gan Sylvia ac os dwi'n lwcus, caf glywed cân neu ddwy gan Billy a Ricardo! Dwi yn fy seithfed nef!


Dydy bywyd byth yn ddiflas i gath yng nghanol y Gaiman. Dwi'n clywed y myfyrwyr yn chwarae a dysgu yn ddyddiol ond, mae ambell un yn amau mai fi sy'n achosi i'r larwm ganu o hyd! Byddwn i fyth yn tarfu ar fy ffrindiau annwyl – addo!

Os ydych chi byth yn yr ardal, dewch i'm gweld ac fe gewch chi groeso twymgalon gyda'm rhieni a minnau.

Hwyl am y tro,

Dewi





# Amser dathlu i Glwb Rygbi'r Ddraig Goch

**gan Meic Downey**

Cafodd clwb rygbi cyntaf y Gaiman ei sefydlu am y tro cyntaf yn 1972 o dan yr enw 'Clwb Rygbi'r Ddraig Goch' ond oherwydd diffyg diddordeb nid oedd y clwb yn gallu parhau yn hirach na dwy flwynedd. Fe gafodd y clwb ei sefydlu am yr ail waith yn 1997 am gwpl o flynyddoedd ond eto ni barhaodd yn hirach na dwy flynedd. Am y trydydd tro, fe gafodd y clwb ei sefydlu yn 2004 a bu'n lwyddiant ers hynny. Gan nad oedd clwb rygbi parhaol yn y Gaiman cyn 2004, roedd rhaid mynd i Drelew i allu chwarae rygbi. Pendefynodd y chwaraewyr yma, bod rhaid iddynt rhoi'r gorau iddi i chware yn Nhrelew a dechrau hyfforddi plant y Gaiman er mwyn anelu at y freuddwyd o sefydlu tîm cyntaf ymhellach yn y dyfodol.

Erbyn heddiw, mae gan Glwb Rygbi'r Ddraig Goch dim o dan 7 i fyny at dîm cyntaf. Mae 'na dîm merched o dan 15 a mae 'na dim cyntaf merched. Mae rygbi merched yn datblygu ym Mhatagonia ac felly dim ond rygbi 7 pob ochr mae'r merched yn chwarae ar hyn o bryd. Mae'r gystadeluaeth yn rhedeg o fis Chwefror tan fis Tachwedd. Rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf, mae'r Ddraig Goch yn chwarae mewn cynghrair lleol yn erbyn Porth Madryn RC, Trelew RC, Patoruzu RC (clwb arall yn Nhrelew) a Bigornia RC (sef Rawson) a gelwir y gystadleuaeth yn 'Torneo Preparación Austral.' Yn yr ail hanner o'r tymor sef o fis Awst i fis Tachwedd, mae'r gynghrair leol yn ymuno â chynghrair o dalgylch Comodoro (sydd 500km i'r de o'r Gaiman) ac felly'n chwarae'r holl dimau lleol a phum tim o Gomodoro sef CD Portugues, Comodoro RC, Chenque RC, Calafate RC a San Jorge RC. Gelwir y gystadleuaeth yma'n 'Torneo Austral'.

Yn ddiweddar iawn mae'r Ddraig Goch wedi cael ei benblwydd yn 15 oed a roedd dathliad mawr yn neuadd y dref gyda dros 500 o bobl yn mynychu i fwyta empanadas a choripans ac i ddawnsio'r Chacarero. Ym mis Awst fe gafodd y gêm gyntaf ei chwarae ar gae newydd y clwb ac hynny yn erbyn San Jorge. Er bod y Ddraig Goch wedi cael tymor caled, roedd hi'n bleser gweld nhw'n ennill eu gem cyntaf yng ngem agoriadol y cae. Mae'r cae newydd werth ei gweld a fe gafodd ei baratoi gan llawer o wirfoddolwyr y clwb. Cyn i'r cae newydd cael ei orffen, roedd rhaid chwarae ar gae pridd, caled a llwchlud.

Mae criw o'r urdd newydd bod yn ymweld a'r clwb a fe gafodd cystadeluaeth cyffwrdd ei drefnu fel bod y Cymry yn gallu chwarae efo ac yn erbyn plant a pobl ifanc y dyffryn. Roedd dros 60 o blant a phobl ifanc yn chwarae. I orffen, fe gafodd gem 7 pob ochr cyffwrdd ei drefnu, tim yr Urdd yn chwarae yn erbyn tim y Ddraig Goch. Fe orffennod y gem yn 15 pwynt i 15 pwynt ac aeth pawb mewn i'r clwb i fwyta bondiolas a chymdeithasu.

# Eisteddfod del Chubut yn llwyddiant ysgubol

**gan Angelica Evans**

Cawsom amser gwych iawn yn yr Eisteddfod. Roedd llawer o bobl o Gymru yno a chyfle i siarad llawer o Gymraeg.

I ddechrau, ar fore dydd Iau, roedd Gorsedd yr Eisteddfod. Roedd ychydig o wynt ond roedd hi'n braf iawn. Ar ôl yr Orsedd, aethom i Dŷ Gwyn ar gyfer rhaglen Dewi Llwyd (Hawl I Holi) i ofyn cwestiynau ac ateb cwestiynau. Roeddwn i mor nerfus yn siarad gyda'r meicroffôn!

Cystadlais yn rhagbrofion yr adrodd, ond doeden i ddim yn llwyddiannus yn anffodus. Wedyn, brynhawn dydd Gwener buom yn brysur gyda'r cyd-adrodd. Gyda ffrindiau o'r Gaiman, ac o Gymru hefyd, gwnaethom baraoti'r cyd-adrodd, Tai Un Nos. Cawsom y wobr gyntaf felly roeddem yn hapus iawn, wrth gwrs! Hefyd, cymerais ran yng nghystadleuaeth y côr cymysg gyda'r Ysgol Gerdd a dawnsio gyda Ffrindiau Bryn Crwn (ac ennillon ni hefyd!).

Bûm hefyd yn canu gyda'r côr capel (Capel Bethel, Capel Bryn Crwn). Roeddwn i'n hapus iawn i ddangos bywyd y capel yn yr Eisteddfod. Cawsom lot o hwyl ac roeddem yn hapus i weld Capel Tabernacl, Trelew yn cymryd rhan. Ers talwm, doedden nhw ddim ar y llwyfan gyda'r côr capel, felly roedd hi'n fendigedig i weld y côr hwnnw'n cymryd rhan hefyd.

Roedd fy merch, Lowri Ann, yn dawnsio Dawns y Blodau yn y seremoni ac roedd hi'n hapus iawn hefyd i gymryd rhan. Roedd hi'n disgwyl yr Eisteddfod er mwyn cael dawnsio.

Roedd amser yn hedfan yn yr Eisteddfod. Mae'n rhaid i mi ddweud y gwnaethom fwynhau fel teulu. Roedd y castadlu'n ddiddorol iawn ac roedd llawer o bobl wedi cymryd rhan yn y rhagbrofion.




**Dawnswyr disglair:**

Ffrindiau Bryn Crwn ar lwyfan yr Eisteddfod. (Tarddiad: Mariel Bonavia)